# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 07-10 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 25 Mai 2010**
**Amser: 09.32 - 11.03**

### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru l

Jenny Randerson AC, Canol Caerdydd

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Joseph Carter, Rheolwr Polisi, y Wasg ac Ymgyrchoedd, Cymdeithas MS Cymru

Anthony Wiggins, Cadeirydd, Cangen Caerdydd a Bro Morgannwg, Cymdeithas MS Cymru

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

### Cafwyd ymddiheuriad gan Mike German.  Roedd Jenny Randerson yn dirprwyo ar ei ran.

### 2. Sesiwn dystiolaeth: P-03-248 Gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau - Tystiolaeth gan y deisebwyr

### Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Joseph Carter ac Anthony Wiggins.

### 3. Trafod y dystiolaeth

Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas MS Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Gomisiynu papur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar y mater gan ystyried cyhyd yr oedd y mater wedi'i drafod gan Bwyllgorau eraill a'r cwmpas ar gyfer ymchwiliad byr posibl; ac

Ystyried cynnal ymchwiliad byr ar y materion a godwyd gan y ddeiseb a'r dystiolaeth yng ngoleuni'r wybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

### 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**(i) P-03-162 Diogelwch y ffordd yn Llanspyddid**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am adroddiad ar yr adolygiad diogelwch a gynhaliwyd yn ddiweddar a chysylltu â'r Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth os na dderbynnir hwn mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mehefin (i sicrhau bod modd ei ystyried cyn diwedd tymor yr haf);

Ysgrifennu at holl Weinidogion Cymru yn gofyn am fwy o eglurder o ran amseroedd pob ymateb.

**(ii) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy Bont Hafren**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn:

Am fanylion sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cyd-gysylltu â Llywodraeth y DU ar fater sy'n berthnasol iawn i Gymru, er nad yw wedi'i ddatganoli;

A yw safbwyntiau Llywodraeth y DU wedi newid yn dilyn y newid yn y llywodraeth; a

Sut y mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn bwriadu sicrhau y bydd buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol pan fydd y penderfyniad ar ddyfodol y bont yn cael ei wneud yn 2016?

**(iii) P-03-200 Camlas Morgannwg**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn am ei hymateb i'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan y deisebydd;

Ysgrifennu at Croeso Cymru i ofyn am eu barn am gynigion y deisebydd; a

Comisiynu briff gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddynodi ffynonellau arian ac arbenigedd posibl.

**(iv) P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes addysg uwch**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a yw llythyr y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r adolygiad annibynnol i lywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru yn mynd i'r afael â'i bryderon.

**(v) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon..

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ragor o wybodaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac i gysylltu ag ef i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf pe na bai'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth erbyn y cyfarfod Pwyllgor ar 29 Mehefin (i sicrhau bod modd ystyried hwn cyn diwedd tymor yr haf).

**(vi) P-03-227 Ffordd Fynediad Llanmaes / P-03-252 Gwrthwynebu Ffordd Fynediad Ogleddol Canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn a yw'n rhagweld y bydd yr Adolygiad Amddiffyn Strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth newydd y DU yn cael unrhyw effaith ar amserlen y penderfyniad terfynol ar y Gorchymyn Prynu Gorfodol.

**(vii) P-03-240 Gwelliannau i'r A40 yn Llanddewi Felffre**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ragor o wybodaeth am yr adolygiad ar y cyfyngiad cyflymder gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac i gysylltu ag ef yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf pe na bai wedi cael ymateb erbyn y cyfarfod Pwyllgor ar 29 Mehefin (i sicrhau bod modd ei ystyried cyn diwedd tymor yr haf).

**(viii) P-03-262 Academi Heddwch Cymru**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Lunio rhestr o'r cwestiynau ysgrifenedig ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Heddwch yn Frankfurt;

Anfon yr holl wybodaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor i'r Prif Weinidog, unwaith y bo'r ymateb gan Sefydliad Heddwch Frankfurt wedi'i gael, fel bod modd iddo adolygu ac ymateb i'r dystiolaeth; ac

Ystyried cynnal ymchwiliad ar y ddeiseb yn amodol ar ymateb y Prif Weinidog..

**(ix) P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Pwyllgor Cynaliadwyedd i ofyn a fyddai modd iddo gynnal ymchwiliad i'r materion sy'n deillio o'r ddeiseb hon.

**(x) P-03-270 Gweithredu dros Blant**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu gyda manylion y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hyd yma, i helpu i lywio eu cwestiynau i Rathbone fel rhan o'r ymchwiliad NEETs, a chynnwys eu llythyr at y Gweinidog ar yr Agenda Trawsnewid, a hefyd i ofyn a fyddai'r Pwyllgor yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r mater; a

Ysgrifennu at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn gofyn a ydynt wedi gwneud gwaith tebyg yn y gorffennol a ph'un a fyddent yn ystyried cynnal ymchwiliad ar y mater hwn.

**(xi) P-03-271 Ardrethi Busnes yn Arberth / P-03-286 Ardrethi Busnes yng Ngheredigion**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn:

A oes modd iddo gadarnhau y bydd y lluosir yn aros ar 0.409 yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd gan Siambr Fasnach Arberth bod posibilrwydd y bydd yn codi;

A oes unrhyw dystiolaeth bod ardaloedd gwledig fel Arberth a rhannau o Geredigion wedi gweld cynnydd uwch na'r cyfartaledd, gan dynnu sylw at y gyfran o fusnesau yn Arberth sydd wedi profi codiadau o dros 100%;

I gael manylion pryd y bydd cwblhau'r astudiaeth allanol ar effeithiau gostwng ardrethi, gan Brifysgol Cumbria, a'i fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r Pwyllgor; a

Pryd y mae'n rhagweld y bydd manylion gostyngiad yn yr ardrethi busnes o 1 Hydref yn cael eu cyhoeddi.

**(xii) P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo roi i'r Pwyllgor y diweddaraf ar y cynnydd a wnaed gyda'r astudiaeth o gludo cydrannau tyrbini gwynt yng Nghanolbarth Cymru mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf.

**(xiii) P-03-276 Cynnig dros Ferched - Sustrans**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon..

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn

Am ragor o wybodaeth am sut mae hyfforddiant beicio yn helpu i fynd i'r afael â phryderon beicwyr

A oes ganddo unrhyw gynlluniau i gynyddu'r nifer o lonydd beicio neilltuol gan i hyn gael ei amlygu yn astudiaeth Sustrans fel y ffordd fwyaf effeithiol o alluogi merched i feicio mwy

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu darparu'r cynllun gweithredu Cerdded a Beicio yn drawsadrannol

**(xiv) P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o fanylion am y cynlluniau i ail-ddatblygu Ysbyty Brenhinol Caerdydd, a amlinellodd ar 30 Gorffennaf 2009, ac i ofyn iddi ddiweddaru'r Pwyllgor gyda'r cynnydd o ran ail-ddatblygu;

Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg yn gofyn eu barn am y ddeiseb, ac i ofyn am fanylion ail-ddatblygu arfaethedig y safle; ac i

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei barn am gynnwys llythyr y Gweinidog.

**(xv) P-03-281 Mwy o staff mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon..

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei farn am lythyr y Gweinidog ac i ddarparu crynodeb o ganllawiau'r Coleg Meddygaeth Frys ar lefelau staff; a

Ysgrifennu at bob Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth am lefelau staffio yn eu hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac i holi a ydynt yn unol â chanllawiau'r Coleg Meddygaeth Frys ar lefelau staffio diogel.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37**

## 5. Adolygu Gweithdrefn y Pwyllgor

Bu'r Pwyllgor yn trafod newidiadau i'r gweithdrefnau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2010**